

Gweithio gyda'r tadau ynghylch gwasanaethau i blant a theuluoedd

Yr Athro Jonathan Scourfield

Briffio Ymchwil CASCADE

Rhif 9: Mehefin 2018



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



ExChange

Building Better Social Care
in Wales
Adeiladu Gofal Cymdeithasol
Gwell yng Nghymru



School of
Social Sciences
Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol



Briffio Ymchwil CASCADE

Rhif 9: Mehefin 2018



Gweithio gyda'r tadau ynghylch gwasanaethau i blant a theuluoedd

Yr Athro Jonathan Scourfield

Negeseuon pwysig o ran polisïau ac arferion

- Yn sgîl dadansoddi'r data ddeilliodd o astudiaeth o garfan benodol, mae'n debyg bod rhwystredigaeth tadau sy'n gofalu am blant bach yn achosi iselder yn y plant hynny yn eu harddegau.
- Does dim llawer o dystiolaeth wedi'i chyhoeddi hyd yma am effeithiolrwydd gwaith gyda thadau yn benodol.
- Rhaid llunio triniaeth ar gyfer tadau sy'n dioddef â rhwystredigaeth ddwys wrth ofalu am blant.
- Cynhaliwyd arolwg i weld pa fath o gymorth sydd ar gael i dadau yn y deyrnas hon. Mae'n ymddangos bod llawer o'r gwaith gyda thadau wrth gynorthwyo teuluoedd yn defnyddio dulliau yn ôl tystiolaeth o'r hyn sydd o les i rieni, megis technegau gwybyddol ac ymddygiadol.
- Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau i dadau yn rhai cyffredinol eu natur yn hytrach na phenodol.
- Dyw'r rhan fwyaf o waith yma gyda thadau ddim yn ymwneud â ffeministiaeth na hawliau dynion.
- Yn ôl astudiaeth ansoddol o raglenni rhieni sengl i dadau plant sydd mewn perygl, gall fod yn anodd iawn ymgysylltu â dynion sy'n profi anawsterau o ran magu plant achos nad ydyn nhw'n defnyddio'r gwasanaethau i deuluoedd fel arfer.
- Dylai gweithwyr disgwyl y bydd angen amser ac amynedd i ymgysylltu â thadau.
- Gallai fod angen gwaith dwys i feithrin perthynas â thad a'i ddarbwylllo i barhau mewn rhaglen rianta.
- Ynglŷn â thadau o dras neu grefydd leiafrifol, dylid ystyried rhaglenni sy'n briodol o safbwynt diwylliannol

Briffio Ymchwil CASCADE

Rhif 9: Mehefin 2018



Mae tair astudiaeth wedi'u crynhoi yma ynghyd â linciau ag erthyglau manylach sydd ar gael i bawb trwy'r we. Jonathan Scourfield lywiodd yr astudiaethau ar gyfer cymrodoriaeth canol ei yrfa, 'Fathers, social interventions and children's well-being', o dan nawdd Cyngor yr Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae pob astudiaeth yn ymwneud mewn amryw ffyrdd â thadau a'r gwasanaethau ar eu cyfer.

Rhwystredigaeth tadau wrth ofalu am blant, a'r deilliannau i blant wedyn

Ystyriodd **ASTUDIAETH 1** pa rai o nodweddion tadau plant bach yn gysylltiedig â phroblemau iechyd y meddwl yn y plant hynny wedyn. Defnyddiwyd dull yr 'Avon Longitudinal Study of Parents and Children' (ALSPAC) i astudio carfan dros gyfnod penodol. Dangosodd y data fod rhwystredigaeth ddwys tadau wrth ofalu am blant 21 mis yn gysylltiedig â pherygl iselder yn y plant hynny ar ôl troi'n 16 oed. Byddai tadau'n amlygu eu rhwystredigaeth yn aml trwy ddweud pethau megis "Alla i ddim goddef fy mhlentyn yn ei ddagrau," neu "Bydd gofynion fy mhlentyn yn fy nigio'n fawr, weithiau". Ac ymhelaethu ar hynny, dim ond ym mhiant rhai teuluoedd nad ydyn nhw ymwneud â gwaith llaw y gwelwyd cyswllt rhwng rhwystredigaeth tadau wrth ofalu am blant ac iselder yn y plant hynny yn ystod eu harddegau. Roedd y cyswllt hwnnw'n drech na phob perygl arall megis profiad gwael y fam o ofalu am blant, iselder mamol ac unrhyw beth erchyll allai fod wedi digwydd i'r teulu yn ystod y glasoed. Doedd rhannau eraill o brofiad tad megis hyder, mwynhau a disgyblu ddim yn beryglus nac yn fanteisiol ynglŷn ag iselder yn y plant wedyn. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen llunio triniaeth i dadau sy'n dioddef â rhwystredigaeth ddwys wrth ofalu am eu plant er mwyn osgoi afiechyd y meddwl yn y plant hynny wedyn.



Pa fath o gymorth sydd ar gael i dadau yn y deyrnas hon?

Roedd **ASTUDIAETH 2** yn arolwg o feddygon teulu ledled y deyrnas i weld pa dulliau maen nhw'n eu defnyddio wrth drin tadau. Nodwyd bod y rhan fwyaf o wasanaethau i dadau yn rhai cyffredinol, yn hytrach na phenodol. Fel y gwelwyd mewn astudiaethau blaenorol, nid llawer o dadau sy'n defnyddio gwasanaethau. O ran y dulliau - dim ond ychydig o wleidyddiaeth rhyw sydd ar waith, hynny yw doedd dim llawer o dystiolaeth bod y meddygon yn awyddus i hybu ffeministaeth na hawliau dynion. Yn hytrach, dulliau'r brif ffrwd megis technegau gwybyddol ac ymddygiadol sydd fwyaf poblogaidd wrth gynorthwyo rhieni. Mae tystiolaeth gyffredinol o blaid eu defnyddio er cymorth i rieni ac, felly, mae'n galonogol mai dyna'r dulliau y bydd meddygon yn troi atyn nhw gan amlaf. Y duedd wrth werthuso, fodd bynnag, yw peidio ag ystyried effaith rhaglenni ar y tadau o ganlyniad i gymryd rhan ynddyn nhw - does dim llawer o raglenni o'r fath sydd wedi'u cloriannu'n drylwyr.

Sut mae cymorth i dadau yn gweithredu?

Cynnwys **ASTUDIAETH 3** oedd dau ddarn gwahanol o ymchwil ansoddol i daflu rhywfaint o oleuni ar broses grwpiau tadau a sut maen nhw'n gweithredu. Roedd y naill yn astudiaeth o gylch *Mellow Dads*, rhaglen ddwys ar gyfer tadau plant sydd mewn perygl. Tynnodd sylw at anawsterau ychwanegol y rhai sy'n gweithio gyda thadau (am nad yw tadau wedi defnyddio gwasanaethau i blant, fel arfer) a'r dyb mai dim ond hyn a hyn o newid allai ddigwydd, hyd yn oed trwy raglen rianta ddwys. Tynnodd sylw at yr amser a'r medrau ychwanegol y byddai eu hangen i gynnal grŵp o dadau mewn rhaglen o'r fath, hefyd. Roedd y gweithwyr yn fedrus iawn o ran cynnal cymhelliant a diddordeb y tadau yn ystod y cwrs. Cwrs *Islamic Values Family Links* oedd o dan sylw yn yr astudiaeth arall. Roedd y cwrs wedi deillio o raglen arall ar gyfer rhieni o Foslemiaid. Dangosodd bosibiliadau ffyrdd creadigol o helpu rhieni trwy drin a thrafod eu cefndir diwylliannol o ddifrif, gan gynnwys eu crefydd. Mae'r cwrs ar gael i Foslemiaid sy'n rhieni, beth bynnag fo eu tras. Pacistaniaid oedd y rhan fwyaf o dadau yn y cwrs astudion ni, fodd bynnag, ac Wrddw oedd y cyfrwng o ganlyniad. Roedd y tadau a'u gwragedd yn fodlon iawn ar y rhaglen.



Further Details

ASTUDIAETH 1

Mae rhagor o fanylion yn yr erthygl hon sydd ar gael i bawb trwy'r we:

Scourfield, J., Culpin, I., Gunnell, D., Dale, C., Joinson, C., Heron, S. J. a Collin, (2016). The association between characteristics of fathering in infancy and depressive symptoms in adolescence: a UK birth cohort study. *Child Abuse and Neglect* 58: 119-128.

<http://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0145213416301107>

ASTUDIAETH 2

Mae rhagor o fanylion yn yr erthygl hon sydd ar gael i bawb trwy'r we:

Scourfield, J. Cheung, S-Y. a Macdonald, G. (2014). Working with fathers to improve children's well-being: Results of a survey exploring service provision and intervention approach in the UK. *Children and Youth Services Review*. 43: 40-50.

<http://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0190740914001595>

ASTUDIAETH 3

Mae rhagor o fanylion yn yr erthygl hon sydd ar gael i bawb trwy'r we:

Scourfield, J., Allely, C., Coffey, A. a Yates, t. (2016). Working with fathers of at-risk children: Insights from a qualitative process evaluation of an intensive group-based intervention. *Children and Youth Services Review*. 16: 259-267.

<http://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0190740916302699>

Scourfield, J. a Nasiruddin, Q. (2015). Religious adaptation of a parenting programme: Process evaluation of the Family Links Islamic Values course for Muslim fathers. *Child Care, Health and Development* 41 (5): 697-703 <http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/cch.12228/full>



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



ExChange

Building Better Social Care
in Wales
Adeiladu Gofal Cymdeithasol
Gwell yng Nghymru

**CARDIFF
UNIVERSITY**

**PRIFYSGOL
CAERDYDD**

School of
Social Sciences

Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol

**CARDIFF
UNIVERSITY**

**PRIFYSGOL
CAERDYDD**